

C E R A M I C
S E R I E S ●

C Y F R E S ●
G E R A M E G




CANOLFAN Y CELFYDDYDADW ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

peter beard

Hydref 1994 October
rhif 68 number

beard



All pots shown wax resist decoration
high and low temp glazes stoneware
except where stated

Front page **Jug Form** 37cm high

Sail Piece 60cm high

In 1976 I was still a school teacher in Cambridgeshire teaching pottery to secondary school children. Very much the amateur potter, I spent Saturdays in Primavera, Henry Rothschild's Gallery in Cambridge, looking at, or more accurately scrutinising, the pots by already well known potters that were to become the cornerstones of my own potting in later years. Every two months I would religiously spend the princely sum of 60p for my own copy of Ceramic Review and read it from cover to cover at least twice before filing it for future reference. Hidden away in Ceramic Review no. 42, looking a little like an Iranian religious leader with his long and rather expansive beard, is a photograph of Peter Beard alongside one of the ceramic pieces that I had noticed and admired in Primavera. I distinctly remember connecting the face with the work. Amongst the shelves of thrown domestic pottery the quality and precision of the small sculptural pieces combining black, crisp geometric lines with pink and white organic porcelain fungoids had attracted my attention.

Years later I was to meet Peter Beard and discover that we have much in common. We have become firm friends. Sharing the back of a hot and very dusty landrover over 700 miles of rough Ethiopian terrain is enough to cement any friendship. Surprisingly, to me at least, we were both born in the same year, 1951 (I expected him to be much older as he had become a well known figure in British ceramics so early). We share a similar sense of humour, a penchant for collecting old and interesting artefacts and a rather lofty height which is of no great significance in ceramics but does mean that we are constantly looked up to, even if only because other potters tend to be rather shorter people.

Peter Fraser Beard was nine years old when his family moved to London from the north of England. He spoke of his particular patch of south east London.

Ym 1976 roeddwn i'n parhau i fod yn athro ysgol yn swydd Caergrawnt, yn addysgu crochenwaith i blant ysgol uwchradd. Amatur o grochenydd yn unig oeddwn i ar y pryd, a threuliwn fy Sadyrnau yn Primavera, sef Oriel Henry Rothchild yn Nghaergrawnt. Yno byddwn yn edrych ar, neu'n gywirach yn archwilio, y potiau o waith dwylo crochenwyr a oedd eisoes yn adnabyddys, a'r crochenwaith a oedd i ddod yn benconglfeini fy nghrochenwaith i fy hun mewn blynnyddoedd diweddarach.


Bob deufis fe fyddwn ni'n gwarior swm anrhyydeddus o 60 ceiniog yn grefyddol reolaidd am fy nghopi o'r Ceramic Review ac fe'i darllenwn ef o glawr i glawr o leiaf ddwywaith, cyn ei ffeilio o'r neilltu ar gyfer cyfeiriadaeth maes o law yn y dyfodol. Wedi ei guddio allan o'r golwg fel petae yn rhifyn 42 o'r Ceramic Review, ac yn edrych yr un ffunud ag arweinydd crefyddol Iranaid gyda'i farf hir a thra llydan, roedd llun ffotograffaid o Peter Beard, ochr yn ochr ag un o'r darnau ceramig rheiny yr oeddwn i wedi sylwi arnynt a'u hedmygu ym Mhrimavera. Cofiac yn eglur blaen i mi gysylltu'r wyneb hwnnw ar fy union É'r gwaith cyfochrog. Ymhlið y silfleoedd o grochenwaith wedi ei daslu at ddefnydd y cartref, yr oedd ansawdd a thra-chywirdeb y darnau bychain cerfluniol, a gyfunai dywyllwch du gyda llinellau geometrig meinllym, a chyda'u ffyngoidau porslen organaidd mewn pinc a gwyn, wedi llwyr ddenu fy myrd.

Flynnyddoedd yn ddiweddarach yr oeddwn i fy hun i gyfarfod É Pheter Beard ac i ddargansod gymaint o nodweddion a oedd yn gyffredin rhyngom ni'n dau. Rydym ni wedi dod yn gyfeillion cadarn. Mae rhannu cefn cerbyd poeth a disrifol lychlyd mewn Land Rover, dros 700 o filltiroedd o anialdir garw Ethiopiaidd, yn ddigon i asio unrhyw gyfeillgarwch ynglwm. Yn rhyfeddol ddigon, i mi o leiaf, fe'n ganed ni ill dau yn yr un flwyddyn - sef ym 1951 (Disgwylaswn iddo ef fod yn llawer h.n na mi, gan ei fod ef wedi ennill ei blwyf fel ffigur enwog mor gynnar ym myd cerameg Prydeinig). Rydym ni'n dau yn rhannu'r un synnwyr o ddigrifwch, a'r un gogwydd a'r

"In one direction, buildings lined the route to the city centre, but just a few minutes walk in the other direction were open fields. I had the best of both worlds, rural and urban, with all the influences of each."

A pottery at the end of the road provided the opportunity to develop an embryonic interest in clay work and within a very short time Peter had secured a weekend and school holiday job fettling the cast ware products. Eventually art college beckoned where he met and was taught by Graham Burr, one of only three different influences on his work that Peter will acknowledge, the others being Hans Coper and Colin Pearson. On leaving College he was to spend a year in Scotland setting up a pottery producing a range of hand thrown domestic table and kitchen ware but by 1975 he was back in London working for himself producing the one off pieces I had admired in Primavera.

Overseas travel has played a significant part in the



Sail Piece stoneware textured clay and stains 45cm high


tueddfryd at gasglu artefactau hen a diddorol. Rhannwn hefyd yr un uchelderau lled entrychiol, nad ydyw o unrhyw arwyddocÉd nac yma nac acw ym myd cerameg; ond y mae'n golygu yr edrychir i fyny yn gyson tuag atom ni'n dau, pa na bai am ddim amgenach na'r ffaitbod crochenwyr eraill yn tueddu i fod yn bobl braidd yn fyr eu maintioli, o safbwyt cymharol eu taldra corfforol.

Naw oed ydoedd Peter Fraser Beard pan symudodd ei deulu i Lundain o Ogledd Lloegr. Siaradai am ei randir neilltuol ef o Dde-Ddwyrain Llundain: "I un cyfeiriad, safai adeiladau yn canllawio'r dywys-ffordd i ganolfan y ddinas, ond i'r cyfeiriad arall, taith gerdded o ychydig funudau yn unig oedd rhyngom ni Ér meysydd agored. Roedd y gorau o'r ddeufyd ar gael i mi; y gweledig a'r trefol, gyda holl fanteision a dylanwadau'r naill a'r llall."

Gyda chrochendy ym mhen pella'r ffordd, darperid cyfle i ddatblygu diddordeb dechreuo mewn gwaith clai, ac o fewn cyfnod byr iawn o amser roedd Peter wedi sicrhau iddo'i hun swydd dros y penwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ffetlo ac yn cyfreinio'r cynhyrchion castiedig a dynnid o'u mowldiau. Ar ben draw'r trywydd hwnnw amneidiai'r coleg celf, lle y cyfarfu ac y cafodd ei ddysgu gan Graham Burr, un o ddim ond tri yn unig a gydnebydd Beard fel y rhai a dylanwadodd ar ei waith; y ddau arall oedd ynt Hans Coper a Colin Pearson. Ar il gadael y coleg, bu iddo dreulio blwyddyn yn yr Alban yn sefydlu gwaith crochenu i gynhyrchu amrediad o nwyddau bwrrd a chegin wedi eu llaw-daflu; ond erbyn 1975 yr oedd wedi dychwelyd i Lundain i weithio iddo'i hun yn cynhyrchu y darnau un-ar-y-tro fel y rheiny y bu i mi ei hedmygu gymaint ym Mhrimavera.

paramount though often designed with a specific glaze in mind. If the form fails then no amount of clever glazing will rescue it. Peter has a fine sense of form. The shapes of his pots shine through from underneath the pattern and colour. The pattern often serving to highlight or intensify the form in much the same way as another potter may facet or engrave. Lines that move across a surface allow us to read that surface much as we would read the hedges surrounding a patchwork of fields or the intricate lines on a zebra. Each lend solidity and enable the viewer to recognise and interpret three dimensional form by interpreting a two dimensional pattern.

Peter has that innate ability which allows him to recognise when a form is 'right'. Even the slabbed constructions have 'rightness' and balance that is as subtle as it is difficult to achieve. This sense of form, coupled with an inventive sense of scale, produces pots that draw from the classic pots of the past both from the Far East and Middle East. They are often imbued with an archaic, even archeological, resonance yet remain firmly fixed in our own time. They can be as 'modern' as we need them to be while at the same time seem to represent a collective summary of ceramic history so far expressed as a new vibrant language.



Thrown Vessel 35cm high


trawiad cyntaf. Yn fy ngwaith i fy hun y mae'r ffurf o'r pwysigrwydd pennaf, er y byddaf yn aml wedi ei gynllunio gyda gwydredd penodol gennys mewn golwg ar ei gyfer. Os metha'r ffurff, yna ni all faint bynnag o wydreddu medrus fyth ei achub. Mae gan Peter synnwyr anghyffredin o goeth parthed y ffurf. Mae ffurfiau ei botiau yn disgleirio drwedd o'r haen sydd o dan y patrwm a'r lliw. Bydd y patrwm yn aml yn gwasanaethu i roi amlygrwydd i, neu i dduwys†u, y ffurf; i'r un graddau ag y bydd crochenwyr eraill yn defnyddio rhyw ffased neu engrafiad. Mae'r llinellau sy'n symud ar draws arwyneb y llestr yn caniat†u i ni ddarllen yr arwyneb hwnnw, i raddau helaeth yn yr un modd ag y byddem ni'n darllen y gwrychoedd a amgylchyna glytwraith o gaeau, neu'r llinellau dyrys ar groen sebra. Mae'r naill a'r llall fel ei gilydd yn benthyg i'r gwrthrych rhyw gadernid solidaid, ac yn galluogi'r gweledydd i adnabod ac i ddehongli ffurff tri-dimensiwn trwy ddehongli patrwm dau-ddimensiwn.

Fe berthyn i Peter y medrusiwydd cynhenid sy'n ei alluogi i adnabod yn reddfol pan fyddo ffurff 'yn iawn'. Mae hyd yn oed i'r adeiladweithiau slabaid rhyw 'gywirdeb' priodol a chydwysedd hynaws; a briodolir yn gymaint i'w clyfrwch cyfrwys ag i afrwyddineb y grefft o'u gwireddu. Y synnwyr yma o ffurf, ynghyd â synnwyr creadigol o raddfa, ydyw'r hanfod sy'n cynhyrchu llestri sy'n benthyca eu cyfaredd oddi wrth lestri clasurol y gorffennol, o'r Dwyrain Pell yn ogystal ag o'r Dwyain Canol. Yn aml iawn y maen nhw wedi eu trwytho gyda chyseinedd hynafiaidd, hyd yn oed archeolegol ei nawr; ac eto y maent serch hynny yn parhau i berthyn yn gadarn a diysgog i'n hamser modern nyni ein hunain. Gallant fod mor 'gyfoes' ag y dymunwn ni iddyn nhw fod, tra eu bod ar yr un pryd yn cynrychioli crynodeb casgliadol o hanes cerameg, mor belled ag y'i mynegir megis trwy gyfrwng ieithwedd newydd sy'n ddirgrynnol o gynhyrfus.



Block Vessel 24cm high

Back page Thrown Vessel 34cm high



CANOLFAN Y CELFYDDYDWAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre Penglais Aberystwyth Dyfed SY23 1DE Ffon/Telephone 0970 622 887

Design Stephen Paul Dale Design Associates

development of Peter Beard's ceramic vocabulary throughout his career. Six months hitchhiking in America and Canada armed only with a sketchbook to record the visit had a profound effect on him and influenced much of his earlier work. Echoes of mountains, rivers, lakes, tall buildings and long, seemingly never ending freeways all found their way into his work. Slabs of porcelain clothed in celadon glazes had incised landscape patterns in copper that fired to intense pinks and reds. Open bowls featured dark oxide coatings with modelled fungal growths, the scale of which conveyed the vastness of the American continent. Monolithic slab built objects with drawn grids overlaid with combed slips evoked tall buildings and reflected skies. Later in his career visits to Egypt and Ethiopia were to play their part.

A move to Kent in 1977, the building of the new workshop and the renovation of a small cottage meant a return to throwing if only, at first, because the building work left precious little time for making the more complex pieces. Peter's fascination for linear pattern and clever management of soft textured clay led to the development of 'gold' manganese glaze that highlighted the intricate surface patterns.


"At first, this gave me great pleasure, working out how the glaze pooled to form contrasts of gold and metallic black. The glaze was applied by brush and it was a challenge to obtain the exact thickness for optimum brilliance"

This glaze had the effect of unifying Peter's work. Peter Beard's pots were now instantly recognisable, the skilful use of incised or relief pattern, both as decoration for its own sake and as a vehicle with which to direct and orchestrate the flowing molten glaze, commanded admiration and many of his pots found their way into public and private collections all over the world.

Mae teithio tramor wedi chwarae rhan arwyddocaol yn natblygiad geirfa a ieithwedd cerameg Peter Beard trwy gydol ei yrfa. Bu i'r daith chwe mis yn ffawd-heglu drwy America a Chanada, wedi ei arfogi'n unig ond É llyfr sgetcio i gofnodi ei ymweliad, gael effaith ddwys arno a dylanwau cryn dipyn ar ei weithiau cynharaf. Mae atseiniadau o'r mynyddoedd, yr afonydd, y llynoedd, yr adeiladau tal a'r traffyrd hir di-ddiweddu, i gyd oll ohonynt, wedi treiddio eu ffordd i mewn i'w waith. Ar slabiau o borslen wedi eu gwisgo fel petae mewn gwyddredd seladonaidd, gwelid patrymau tirluniol wedi eu hendorri mewn copor, wedi ei danio i liwiau o binciau a chochion arddwys. Rhoed sawl cit haenog o wyddredd ocsid tywyll wedyn, ar y powlenni agored, ac ychwanegwyd modeliad o dyfiant ffwngaid arnynt, ar raddfa gymwys i gysleu ehangder y cyfandir Americanaidd. Ac y mae'r slabiau monolithig o wrthrychau a adeiladwyd gyda chymorth gridiau, ac wedi eu trosgaenu É darnau cribog, yn ennyn darlun cysfansoddiadol o adeiladau uchel ac awyrâu adlewyrchedig. Yn ddiweddarach yn ei yrfa, byddai ymweliadau É'r Aifft ac ag Ethiopia, hwythau hefyd, yn chwarae eu rhan wrth ffurio trywydd ei ddawn a'i gelfyddyd.

Golygai symud yn il i Gaint ym 1977, ac adeiladu gweithdy newydd ac adnewyddu bwthyn bychan yno, roddi iddo'r cyfeiriad i ddychwelyd i daslu crochenwaith mwy cyffredin; oherwydd gan i'r gwaith adeiladu fynnu cymaint o'i egni, prin iawn o amser a oedd ganddo ar y dechrau, i ymdrechu ar ddarnau mwy cymhleth ac egnâol. Arweiniodd cyfaredd Peter at batrwm llinol a rheolaeth fedrus ar glai o weadedd meddal, tuag at ddatblgu gwyddredd manganâs 'euraid' a ddefnyddiai i amlygu'r patrymau arwynebaidd ceinwych.

"Ar y dechrau, rhoddai hyn bleser mawr i mi, wrth weithio allan sut y cronai'r gwyddredd fel llyn i ffurio'r gwirthgyferbyniadau o aur a du metalaidd dymunedig. Rhoddwu haenau o'r gwyddredd ymlaen gyda brws, ac yr oedd yn gryn sialens i ymgyrraedd at yr union drwch



Thrown Vessel 25cm high

After four or five years working with the same glaze Peter began to find the whole process too easy. The very predictability of the glaze that had initially attracted him now left him with a feeling of profound anti climax each time he opened the kiln. A conscious decision to change direction led him to the belief that colour and a new decorating vocabulary would reintroduce that element of chance and excitement that had disappeared.

"In daring to live bravely rather than safely, I discovered the joy of succeeding when there is a real chance of failure."

Three months away from claywork testing new glazes and decorative techniques provided the spring board for Peter's current work. Gone is the dark and sometimes sombre manganese glaze and in its place has burst out a quite astonishing palette of sumptuous colour. Sometimes the colours are vivid and contrasting in tone and hue and other times they have a subtle beauty that a painter would

delfrydol i ffafrio'r amodau, er mwyn sicrhau y disgleirdeb gwychaf bosib."

Cafodd argraff weledol y gwydreddiad yma yr effaith o uniaethu ei holl waith. Bellach, daethai llestri Peter Beard yn rhai unigryw y gellid eu hadnabod ar amrantiad. Ynddynt gwelid y defnydd hyfedorus o batrymau naill ai endoriadol (ceugrwm) neu gerfweddol (amgrwm), wedi eu bwriadu i amcanion addurniadol ac i sylwadu ar yr arddull er ei fwyd ei hun; yn ogystal hefyd ag fel cyfrwng y gellid cyfeirio a llywio llif y gwydredd toddedig ar y gwrthrych. Mynnai ei arddull edmygedd gwerthfa wrogol, a darganfu nifer o'i lestri eu ffordd i mewn i gasgliadau cyhoeddus a phreifat drwy'r byd benbaladr.

Wedi rhyw bedair neu bum mlynedd yn gweithio gyda'r un gwydredd, dechreuodd Peter ddarganfod bod y broses i gyd wedi dod yn rhyhawdd iddo bellach. Roedd rhagfynegiadwyedd y gwydredd a'i denodd ef ar y dechrau, yn awr yn ei adael gyda theimlad o ddisgynneb affwysol bob tro yr agorai y ffwrn. Gwnaeth benderfyniad ymwybodol a chadarnhaol i newid cyfeiriad, ac o'r fan honno fe'i harweiniwyd ef i'r gred y byddai lliw a ieithwedd addurnol newydd yn ail gyflwyno'r elfen o siawns a chynnwraf a oedd yn ei farn ef wedi diflannu erbyn hyn o'i gynhyrchwaith. Meddai ef: "Wrth fentro i fwyr yn ddewr yn hytrach nag yn ddiogel, bu i mi darganfod y mwynhad a'i wefr o lwyddo tra bodolai siawns hap a damwain go iawn y gallai fy ymdrechion droi allan yn fethiant."

Bu i'r tri mis a dreuliodd ymaith oddi wrth waith clai, yn arbrofi gyda gwydreddau a thechnegau addurno newydd, ddarparu iddo y sbardun sbring-fyrradol a'i lansiodd ef ar ei waith presennol. Bellach mae'r gwydredd manganâs tywyll-ddu, a allasai fod ar adegau'n



Flat Vessel 42cm high

be pleased to achieve straight from the tube, never mind facing the uncertainties and transformations of the stoneware fire.

Peter writes of his current working processes;

"I now work with heavily grogged dark body or a white firing stoneware. The dark body is coated initially with a white slip at the green stage to heighten the colour response. Forming techniques include throwing and altering, slab building and coiling. The thrown work is made relatively thickly so that I can trim the final form to the required profile. In effect I am throwing the internal shape, the outer shape follows later.


After a 1000°C bisque firing the pieces are coated with a barium base glaze; extra layers are sponged over when I want to achieve a heavily textured surface. A comprehensive collection of test tiles helps me to make colour decisions during glazing.

Wax patterning is then applied and allowed to dry

bruddaidd ei olwg, wedi diflannu; ac yn ei le y mae palet eithaf syfrdanol o liwiau moethus wedi egino a ffrwydro i amlgyrwydd. Weithiau bydd y liwiau yn llachar-fyw ac yn gwrrthgyferbynu mewn tîn ac arlliw, ac ar adegau eraill y mae iddynt brydferthwch lled-gyfrwys y byddai unrhyw beintiwr yn falch o fedru eu caffael yn syth allan o'i diwb paent; does dim gwybod yn union pa ganlyniadau i'w disgwyl. Yr ansicrwydd hwnnw, heb sîn am wynebu ansicrwydd canlyniadau'r trawsffurfiadau a ddigwydd wrth eu cyflwyno ar drugaredd tÉn y crochenwaith caled, a ddygodd y cyffro ffres i'w greadigaethau diweddaraf yma.

Ysgrifenna Peter am ei brosesau gweithio presennol:

"Rydw i ar hyn o bryd yn gweithio naill ai gyda chorff tywyll wedi ei grogio'n drwm, neu gyda chrochenwaith caled gwyn ar gyfer ei danio. Gorchuddir y corff tywyll i ddechrau gyda slip



Sail Vessel 37cm high

gwyn yn y 'cynnod' gwyrrd, i ddwysf̄u ac i ddyrchafu'r ymateb lliwiol. Mae'r technegau ffurio yn cynnwys taflu a mowld-newidio, adeiladu slabiau, a thorchi neu goilio. Fe ffurfir y gwaith taflodig yn gymharol drwchus, fel y gallaf drimio'r ffurf terfynol i'r siÉp dymunedig. I bob diben, yr hyn rydw i'n ei wneud ydyw taflu'r siÉp mewnol; bydd y ffurf allanol yn dilyn yn ddiweddarach. Ar il taniad bisgedol o 1000°C, gorchuddir y darnau gyda gwydredd o sail bariwm; ac ychwanegir sawl haen gorchuddiol yn il fy mympwy trwy gyfrwng sbwng, pan fyddaf i angen amcanu i gael arwyneb o weaddedd trwch-drwm. Mae gen i gasgliad o deils arbrofol o'r gorffennol i'm cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynghylch y lliwiau, yn ystod y gwydreddiad. Y pryd hynny yr ychwanegir y gwaith patrymol mewn c.yr, gan ei adael i sychu, cyn peintio staeniau, ocsidau a gwydredd o dymheredd isel, ar yr arwyneb. Defnyddir lithium hefyd i ychwanegu pefriad disglair wrth iddo fflycio yn orlifol dros y gwydredd bariwm oddi tano. Yn olaf, tanir y llestri i fyny at wres o 1290°C mewn ffurn drydanol."

Mewn ymgais ddiarbed a phenderfynol i gadw, ac yn y diwedd i werthu, dim ond yr ansawdd gorau o'r hyn y bydd yn ei gynhyrchu, mae Peter yn gwneud defnydd helaeth o'i fin sbwriel. Bydd unrhyw waith na fyddo'n ddigon derbyniol i safonau archwiliol craff, uchelgeisiol a pherffeithiol Beard, yn cael ei daslu'n ddiiffwдан yn syth i'r bin, y funud yr ymddengys allan o'r ffurn. Bydd darnau eraill a fyddo'n amlwg yn llai 'anghywir' ond a fyddo eto'n rhoi achlysur i fod yn destun pryder, yn cael eu gosod i sefyll am gyfnod ar y silff i'w profi gan amser byr. Os, ymheneuwyd neu ddwy, y profir i'r amheuon gwreiddiol amdanynt fod yn rhai y'i cyflawnhawyd dros y cynnod prawf, yna fe gaiff y gweithiau rheiny eu malurio'n ddarnau mân yn ddiseremoni, yn ddidrugaredd ac yn ddiedifeiriol.

before stains, oxides and a lower temperature glaze are painted onto the surface. Lithium is also used to add sparkle as it overfluxes the barium glaze below. Finally the pots are fired to 1290°C in an electric kiln."


In a ruthless and determined bid to keep and ultimately sell only the very best of what he makes, Peter makes great use of his dustbin. Any work that doesn't make it through the Beard scrutiny is binned immediately it comes from the kiln. Other pieces that are less obviously 'wrong' but still gives rise to concern are placed on the shelf to take the test of time. If after a couple of weeks those initial doubts prove to be justified the work is unceremoniously smashed.

Beard is self effacing when challenged about the underlying philosophies or subconscious themes that exist in his work. He prefers to take a more down to earth and modest stance rather than intellectualising and ultimately over-analysing what he is trying to achieve. He sees himself simply as a maker of beautiful objects that are capable of standing alone and dominating the space around them. Their purpose is

almost solely of a contemplative nature, the shapes often serene with a classic elegance and the surfaces visually intriguing, demanding to be touched or even stroked.

There is of course great sensitivity within Peter's work. I have been with him as he records the shapes and the texture that he experiences. I can remember the mud wall of a hut in Ethiopia - which we visited together on behalf of the charity 'Project Ploughshare' - that echoed some of his monolithic slabbed plates in that it had been repeatedly stabbed with the square end of a piece of wood. I saw that mud wall again only this time it was a deep turquoise with beads or rivulets of glaze highlighting deep stab wounds and then flowing perilously close to the thick and roughly cut edge. Peter's garden and the Kent countryside provide much of the stimulus for the pattern work. Tree bark, leaves, the play of light through the trees and on the surface of his ponds are all recorded and replayed on the surfaces of his pots.

For me, when I look at Peter Beard's pots, I see the form first; others will see the pattern. In my own work the form is



Sail piece 57cm high

Mae Beard yn berson o anianawd hunan-feirniadol a dirodres, ac yn arbennig felly pan y'i herir yngl n É'r athroniaethau tan-arwynebol neu'r them Éu isymwybodol a fodola yn ei waith. Gwell gando ef gymryd safiad mwy ymarferol a diymhongar, yn hytrach na mabwysiadu stans ddeallusol a choeg-ddysgedig, a chael ei dywys yn y pen draw hyd at or-ddadansoddi yr hyn a geisia ymgrychu tuag ato. Fe'i gwàl ef ei hun yn sym fel gwneuthurwr gwrthrychau hardd sy'n abl i sefyll ar eu pennau hwy eu hunain a hawlio eu gofod o'u hamgylch yn hunan-feddiannol a dominyddol. Gellir diffinio eu pwrras hwy bron yn gyfan-gwbl yn nhermau eu natur myfyriol; gyda'r ffurfiau yn aml iawn yn mynegi presenoldeb teg-dawel gyda choethder clasurol, a'u harwynebau yn weledol yn gwysio chwifrydedd, ac yn galw yn amneidiol a didwyll am gael eu cyffwrdd neu hyd yn oed eu hanwesu.

Y mae wrth gwrs sensitifrywedd anferthol o fewn gwaith Peter. Fe fum i gydag ef pan y'i gwelais yn cofnodi'r ffurfiau a'r gweaddeddau wrth iddo ef ei hun eu profi. Gallaf gofio'r mur o fwd yn y cwt hwnnw yn Ethiopia (y bu i ni ymwend ag ef gyda'n gilydd yn ystod ein gwaith ymchwil ar ran Cywaith Chantry: 'Ploughshare P-Phil') a adleisiai rai o'i blatiau o slabiau monolithig, gan eu bod yn yr un modd a'i blatiau ef ei hun, wedi eu trywanu dro ar il tro gyda phen sgwÉr rhyw ddarn o bren. Fe ganfyddais i'r mur mwd hwnnw eto drachefn, ond y tro yma yr oedd mewn lliw maenglas dwfn gyda gleiniau (fel mwclis) neu ffrydiau o wydredd yn tynnu'r sylw at ddoluriau trywaniadau dwfn, ac yna'n llifo'n beryglus o agos tua'r ochr doredig drwchus a garw. Mae gardd Peter hefyd, ynghyd É chefn gwlad cyffiniau Caint, yn ddarpariaethau crai a rydd gryn symbiliad i'w waith patrymol. Mae rhisgl y coed, y dail, y goleuni'n chwarae rhwng brigau'r coed, ac ar arwyneb ei ballynau, i gyd wedi eu cofnodi ac wedi eu hail-chwaraeu a'u hatgynhyrchu gando, ar arwyneb ei botiau.

I mi, pan edrychaf ar lestri Peter Beard, y nodwedd gyntaf a welaf i ydyw'r ffurf; bydd eraill yn gweld y patrwm yn sefyll allan ar eu